Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

# Sut gall yr Ombwdsmon helpu i wneud pethau'n iawn

Hawdd ei Ddarllen

# Cyflwyniad

Dogfen gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** yw hon.



Mae'n esbonio beth gallwn ni ei wneud i wneud pethau'n iawn.

**Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** yn sefydliad annibynnol sy'n delio â chwynion am **wasanaethau cyhoeddus** sy'n cael eu darparu gan y canlynol:




- Cynghorau lleol
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Cymdeithasau Tai



Mae **gwasanaeth cyhoeddus** yn golygu gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan sefydliad sy'n rhan o'r Llywodraeth.

# Gwneud pethau'n iawn



Os oes rhywbeth wedi mynd o'i le, fe wnawn ni'n gorau i wneud pethau'n iawn.



Os oes rhywbeth yn mynd o'i le gyda gwasanaeth cyhoeddus, fe rown ni gyfle iddyn nhw ddatrys pethau cyn dweud beth ddylai ddigwydd yn ein barn ni.



## Os ydych chi eisiau iawndal yn bennaf

Os ydych chi'n cwyno am wasanaeth cyhoeddus ac mai dim ond **iawndal** rydych chi ei eisiau, efallai y bydd rhaid i chi fynd i'r llys.




Arian sy'n cael ei roi i dalu am rhywbeth sydd wedi digwydd yw **iawndal**.



Allwn ni ddim **ymchwilio** i gŵyn os yw'n mynd i'r llys.



Ystyr **ymchwilio** yw edrych ar rywbeth i weld beth sydd wedi digwydd.

# Sut gallwn ni helpu i wneud pethau'n iawn

Gallwn ni'ch helpu chi i gael y gwasanaeth i:



- ddweud sori am y broblem



- esbonio pam aeth rhywbeth o'i le





Gallwn ni hefyd wneud i'r gwasanaeth:

- edrych ar beth aeth o'i le i achosi i chi gwyno



- newid y ffordd mae'n gwneud pethau



- gwella ei hyfforddiant i staff.



Mae rhai achosion lle gallwch chi ofyn i'r gwasanaeth dalu arian tuag at eich costau.



Mae hyn yn berthnasol mewn achosion lle rydych chi wedi mynd i drafferth a threulio llawer o amser yn gwneud eich cwyn.

# Mwy o wybodaeth




Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â ni:

Ffôn:
**0300 790 0203**




E-bost:
**holwch@ombwdsmon.cymru**




Gwefan:
**www.ombwdsmon.cymru/**




Post:
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**